**Eitem ar yr agenda: 3**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Mercher, Ionawr 24ain 2007 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y bore.

**Yn bresennol:**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| E C George (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| | |
| J M Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau); D Docx (Prif Swyddog Cynorthwyol, Cyllid a Chaffael); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); W A Murphy (Uwch Reolwr Gweithrediadau); K Hughes (Uwch Reolwr Diogelwch Tân ); G Brandrick (Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth); D G Roberts (Rheolwr Prosiect y System Ddyletswydd Ran Amser); L Roberts (Rheolwr yr Ystafell Reoli); R Jones (Rheolwr Cefnogol Tîm Ymgynghorol y Prif Swyddog); G Watson (Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

## RHAN I

### 1) Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| K W Finch | Trysorydd i'r Awdurdod |

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Hysbyswyd yr aelodau gan y Cadeirydd na dderbyniodd ef na'r Clerc unrhyw eitemau ar gyfer eu hystyried.

Ymunodd yr aelodau a'r swyddogion i longyfarch y Prif Swyddog Tân am gael ei wobrwyo â Medal Gwasanaeth Tân y Frenhines (QFSM) yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd am ei waith a'i gyfraniad i'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

## 3) Cofnodion

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar Ragfyr 12fed 2006
ii. Y Pwyllgor Adolygu Uwch Gyflogau Rhagfyr 13eg 2006

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion***

## 4) Materion yn codi

Nid oedd dim materion yn codi o'r naill gofnodion a gyflwynwyd.

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Mr Matthew Edwards, Rheolwr Archwilio, a Mr Mark Roberts, Prif Archwilydd, o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod i gyflwyno'r pedwar adroddiad a luniwyd gan y Swyddfa. I ateb cais gan Mr Edwards, caniataodd y Cadeirydd newid trefn y busnes ar agenda'r cyfarfod er mwyn gallu cyflwyno'r eitem ar y Llythyr Archwilio Blynyddol cyn y tri adroddiad arall.

## 5) Llythyr Archwilio Blynyddol

Cyflwynodd Mr Edwards Lythyr Archwilio Blynyddol 2005/06, a baratowyd gan Mr Anthony Barrett yr Archwilydd Penodedig (a ddosbarthwyd o flaen llaw), i'r aelodau. Esboniodd Mr Edwards fod y Llythyr yn crynhoi canfyddiadau'r adroddiadau archwilio eraill oedd ar agenda'r cyfarfod cyfredol a gwahanol adroddiadau archwilio eraill a gyhoeddwyd yn ystod blwyddyn archwilio 2005/06. Ymddiheurodd am yr oedi wrth ddarparu'r Llythyr Archwilio Blynyddol i'r aelodau, ac esboniodd mai'r rheswm am hynny oedd yr oedi wrth gael fersiwn Gymraeg o'r adroddiad oddi wrth gyfieithwyr allanol y Swyddfa. Addawodd ddatrys y mater ar gyfer y blynyddoedd a ddaw. Felly dylai'r Llythyr Archwilio Blynyddol nesaf gael ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr.

Trwy gyfrwng cyflwyniad PowerPoint, rhoddodd Mr Edwards wybod i'r aelodau am negeseuon allweddol y Llythyr, a thynnu eu sylw at feysydd a nodwyd fel rhai lle mae angen gwaith pellach neu sydd angen eu cryfhau. Esboniodd fod y Swyddfa wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamwys ynghylch cyfrifon yr Awdurdod am y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 31ain 2006. Roedd yr Archwilydd yn fodlon fod y Cyfrifon a gyflwynwyd yn datgan yn gywir faterion

ariannol yr Awdurdod: cawsant eu llunio a'u cyflwyno yn unol â'r ddeddfwriaeth, y cyfarwyddiadau, y rheoliadau, a'r safonau cyfrifyddiaeth perthnasol, a bu gwariant yr Awdurdod yn gyfreithlon.

Yn adroddiad y Safon Rhyngwladol ar Archwilio (ISA) 260 sef "Archwilio Datganiadau Ariannol – Adrodd i'r Rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu", a gyflwynwyd i'r Awdurdod ar Hydref 23ain 2006, roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi tynnu sylw eto at y ffaith nad oedd y ffordd roedd yr Awdurdod yn trin ei ddarpariaethau, a oedd yn £515k, yn cydymffurfio â gofynion y Safon Adrodd Ariannol (FRS) 12 a Datganiad Arfer Cymeradwy y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) sef SoRP. Fodd bynnag, roedd y dull a ddilynwyd gan yr Awdurdod ar gyfer trin y darpariaethau hyn yn gyson â'r llwybr a weithredwyd ganddo ers 1996 – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru oedd yr unig awdurdod tân ac achub yng Nghymru oedd wedi mabwysiadu dull o'r fath – ac roedd Swyddfa Archwilio Cymru a'r awdurdodau cyfansoddol yn fodlon fod y dull hwn yn ddarbodus ac yn dryloyw. Roedd y Swyddfa'n cydymdeimlo â'r cyfyngderau a'r cyfyngiadau a wynebai awdurdodau tân ac achub o ran peidio â chael cadw cronfeydd wrth gefn. Roedd yr Archwilydd Penodedig wrthi'n ceisio datrys y broblem gyda Llywodraeth y Cynulliad. Yn ei dyb ef, byddai o gymorth mawr i'r awdurdodau tân ac achub gyda'u gwaith cynllunio tymor canolig petaent yn cael cadw cronfeydd wrth gefn.

Roedd yr Archwilydd Penodedig yn fodlon fod gan yr Awdurdod systemau diogel mewn lle ar gyfer rheolaeth fewnol, ac o ganlyniad, nid oedd dim materion i'w dwyn i sylw'r aelodau. Hefyd, roedd yr Awdurdod yn parhau i ddilyn trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu. Roedd y trefniadau hyn, oedd yn sicrhau mai dim ond deliadau cyfreithlon yr oedd yn ymdrin â hwy, wedi parhau i weithredu'n effeithlon. Fodd bynnag, roedd yr Archwilydd o'r farn fod lle i'r Adran Archwilio Mewnol a'r Awdurdod ddatblygu rhagor ar eu trefniadau mewnol ar gyfer archwilio. Ym marn Swyddfa Archwilio Cymru, gellid cael hyn trwy sefydlu Strategaeth Archwilio Fewnol gytunedig a sefydlu Pwyllgor Archwilio.

O ran Fframwaith Rheoli Perfformiad yr Awdurdod, roedd y swyddogion yn cydnabod canfyddiadau'r Swyddfa fod angen cryfhau'r Fframwaith presennol ar gyfer Rheoli Perfformiad. Rhybuddiwyd yr aelodau gan y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) na fyddai'r Gwasanaeth, heb ddigon o adnoddau, mewn sefyllfa i weithredu pob cynllun yn llwyr. Dywedodd Mr Edwards mai da oedd adrodd bod yr Awdurdod wedi cydymffurfio'n llwyr â gofynion cyfreithiol Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella trwy gwblhau a chyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn y dyddiad cau, er i Lywodraeth y Cynulliad oedi wrth lunio a chyhoeddi'r canllawiau angenrheidiol. Roedd yr Awdurdod hefyd yn dal i barhau i weithio gyda Llywodraeth y Cynulliad, ac yn ymateb iddi, wrth lunio'r Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella - Tân ac Achub drafft at ddiben ymgynghori.

Wrth gloi ei gyflwyniad, dywedodd Mr Edwards wrth yr aelodau fod yr Archwilydd Penodedig yn fodlon â threfniadau'r Awdurdod trwy gydol y flwyddyn. Roedd y trefniadau oedd yn bodoli yn rhoi cefnogaeth iddo i

gyflawni ei gyfrifoldebau i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau yn ystod 2005/06.

O ran y darpariaethau yr oedd yr Awdurdod yn ei dal, dywedodd yr Is-Gadeirydd wrth Mr Edwards fod penderfyniad wedi ei wneud yn ddiweddar i ddychwelyd swm sylweddol o'r Ddarpariaeth ar gyfer Pensiynau i'r awdurdodau cyfansoddol. Pwysleisiodd fod yr Awdurdod, er yn ddibynnol ar yr awdurdodau cyfansoddol i'w ariannu, yn awdurdod ar ei ben ei hun ac y byddai'n fuddiol iawn pe gellid darbwyllo Llywodraeth y Cynulliad i ganiatáu i awdurdodau tân ac achub gadw tanwariannau a hel cronfeydd drwy hynny. Felly:

***Penderfynwyd*: - nodi cynnwys Llythyr Archwilio Blynyddol 2005/06**

## 6) Asesiad Archwilio Mewnol

Aeth Mr Edwards ati i gyflwyno'r adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw), a luniwyd ar y cyd rhyngddo â Mr Mark Roberts, oedd yn manylu ar ganfyddiadau yr asesiad blynyddol o waith Archwilio Mewnol yr Awdurdod. Cafodd yr aelodau wybod mai diben yr archwiliad oedd asesu a oedd trefniadau mewnol yr Awdurdod ar gyfer archwilio yn ddigonol ym marn Swyddfa Archwilio Cymru. Aseswyd yr Awdurdod yn erbyn y safonau proffesiynol fel a nodwyd yn Nghod CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Gyfunol. Wedi'r asesiad, roedd yr archwilwyr wedi dod i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi cydymffurfio'n llwyr â 4 o 10 o safonau CIPFA, wedi cydymffurfio'n rhannol â 5 safon arall, ac wedi methu â chydymffurfio ag 1 o'r safonau. Felly, roedd yr archwilwyr o'r farn fod lle ar ôl i'r gwaith Archwilio Mewnol, ac i'r Awdurdod, ddatblygu rhagor ar y trefniadau er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r 10 safon yn y dyfodol. Y safon yr oedd yr Awdurdod wedi methu cydymffurfio ag o oedd y safon weithredol oedd yn gofyn i'r gwaith Archwilio Mewnol fod â strategaeth archwilio sy'n nodi sut y bydd ei waith yn cael ei ddarparu a'i ddatblygu. Ym marn y Swyddfa, nid oedd Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol yr Awdurdod yn cydymffurfio'n llwyr â'r canllawiau sydd yn y Cod Ymarfer. Felly, roedd y Swyddfa'n argymell y dylai'r Awdurdod ffurfio Pwyllgor Archwilio â chyfansoddiad iawn yn unol â gofynion 'Pwyllgorau Archwilio: Canllaw Ymarferol i Awdurdodau Lleol' a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Yn absenoldeb y Trysorydd, dywedodd y Clerc wrth yr aelodau fod y Trysorydd o'r farn nad oedd angen pwyllgor archwilio arbennig oherwydd maint y sefydliad. Roedd y Trysorydd yn ffyddiog y gallai'r Panel Gweithredol gyflawni gwaith pwyllgor archwilio yn iawn. Cafodd yr aelodau wybod gan y Clerc y byddai angen i'r Awdurdod, petai'r Panel yn penderfynu derbyn cyngor y Trysorydd ynghylch hynny, gymeradwyo newidiadau i Gylch Gwaith y Panel i gynnwys y cylch gwaith estynedig. Cynigiodd yr Is-Gadeirydd, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd M Williams, fod yr Awdurdod yn mabwysiadu'r ffordd hon yn hytrach na sefydlu pwyllgor archwilio arbennig. Hefyd, gofynnodd y Cynghorydd George i gopi o God Ymarfer CIPFA ar Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Gyfunol gael ei ddosbarthu i holl aelodau'r Panel at ddiben cyfeirio. Felly:

***Penderfynwyd*: - llunio adroddiad a'i gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod nesaf ar Fawrth 19eg 2007 i geisio ei gael i ddirprwyo i'r Panel Gweithredol ei swyddogaethau mewn perthynas â rhai materion yn ymwneud ag archwilio.**

## 7) Adroddiadau Ariannol – Archwiliad o'r Cyfrifon Terfynol

Aeth Mr Mark Roberts ati i gyflwyno'r adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) a luniodd ar y cyd â Mr Edwards, oedd yn manylu ar y gwaith archwilio a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â chyfrifon ariannol yr Awdurdod, gan ddarfod gyda chyhoeddi'r Llythyr Archwilio Blynyddol. Esboniodd fod angen iddynt fel archwilwyr, dan God Ymarfer Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru, roi barn ynghylch a oedd datganiadau ariannol yr Awdurdod yn cyflwyno'n deg ei sefyllfa ariannol, o ran incwm a gwariant, am y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 31ain 2006. Rhoddodd Mr Roberts wybod i aelodau'r Panel i'r gwaith archwilio gael ei wneud mewn dau gam. Y cyntaf oedd profi a oedd rheolaeth lefel uchel mewn lle mewn perthynas â llunio'r datganiadau ariannol – byddai presenoldeb rheolaeth o'r fath yn datgelu ac yn atal camgymeriadau rhag digwydd yn y flwyddyn. Ail gam y broses oedd yr archwiliad ei hun o ddatganiadau ariannol yr Awdurdod. Cafodd yr aelodau wybod mai'r Awdurdod oedd yn gyfrifol yn y pen draw am gywirdeb a thryloywder ei sefyllfa ariannol er bod y gwasanaethau ariannol yn cael eu darparu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth. Wedi'r archwiliad, roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi dod i'r casgliad fod gan yr Awdurdod, ar y cyfan, system effeithiol ar gyfer rheolaeth fewnol a oedd yn lleihau'r risg o gamddatganiadau materol yn y datganiadau ariannol. Hefyd, roedd rheolaethau cyfrifyddiaeth ariannol lefel uchel yr Awdurdod yn sail effeithiol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol. Cafodd cyfrifon drafft yr Awdurdod eu llunio i safon uchel ac o fewn y terfynau amser statudol. O ganlyniad, roedd y Swyddfa mewn sefyllfa i gyhoeddi barn ddiamwys am y Cyfrifon ar Hydref 31ain 2006.

Aeth Mr Roberts drwy'r saith argymhelliad oedd yng Nghynllun Gweithredu'r adroddiad, gan eu hesbonio. Pwysleisiodd hefyd y dylai'r Awdurdod gael hyder o'r trefniadau presennol oedd ganddo mewn lle. Roedd yr argymhellion yn ymwneud â sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ac yn cael eu profi er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn yn wyneb newidiadau i ddeddfwriaeth a gweithdrefnau.

## 8) Adolygiad Rheoli Perfformiad

Cyflwynodd Mr Edwards yr adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw), a luniodd ef ar y cyd â Ms Lisa Williams, ac a oedd yn rhestru eu canfyddiadau yn dilyn yr adolygiad y buont yn ei gynnal ynghylch cynnydd yr Awdurdod mewn perthynas â gweithredu ei system rheoli perfformiad. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi dod i'r casgliad fod angen i'r Awdurdod, er ei fod yn gwneud cynnydd yn y maes hwn, gryfhau ei fframwaith cyfredol ar gyfer rheoli perfformiad er mwyn ei wneud yn fwy cadarn. Byddai dyfodiad Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella - Awdurdodau Tân ac Achub yn gyfle delfrydol i'r Awdurdod

ddatblygu a chryfhau'r fframwaith cyfredol ar gyfer rheoli perfformiad. Roedd angen gwella'r fframwaith presennol ar gyfer adrodd er mwyn ei gwneud yn haws cynnwys gwybodaeth fyddai'n rhoi gorolwg o holl ddogfennau allweddol yr Awdurdod mewn un dogfen, er mwyn dangos amcanion yr Awdurdod a sut y byddid yn eu cyflawni, a'r cyswllt rhyngddynt â chyllideb y Gwasanaeth. Hefyd, dylai'r fframwaith roi arweiniad ynghylch llunio adroddiadau monitro yn unol ag amserlenni y cytunwyd arnynt a rhestru rolau a chyfrifoldebau'r swyddogion a'r aelodau.

O ran y system newydd ar gyfer rheoli perfformiad, sef PB Views, a oedd wedi ei rhoi ar waith eisoes, cafodd yr aelodau wybod gan y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) fod y swyddogion o'r farn fod angen gwneud lle iawn i bwysigrwydd dulliau rheoli perfformiad ac adrodd o fewn y Gwasanaeth cyn i'r staff ddechrau defnyddio system PB Views. I ateb cwestiwn gan yr Is-Gadeirydd, dywedodd Mr Edwards fod Heddlu Gogledd Cymru yn enghraifft o sefydliad cyhoeddus oedd â mecanweithiau da ar gyfer adrodd.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Edwards a Mr Roberts am fynychu, ac am gyflwyno eu hadroddiadau ac ateb cwestiynau'r aelodau.

### 9) Cyflwyniad ar y Broses Gynllunio i Leihau Risg

Gofynnodd y Cadeirydd am farn y Panel ynghylch ystyried yr eitem fusnes hon yn y cyfarfod cyfredol gan ei fod yn teimlo y byddai cyfarfod y Gweithgor y Cynllun Lleihau Risg ar Ionawr 30ain 2007 yn fforwm mwy priodol ar gyfer y Cyflwyniad. Cafodd yr aelodau wybod mai diben y cyflwyniad byr gan Reolwr Cynllunio Corfforaethol y Gwasanaeth oedd gwneud i'r aelodau ystyried y broses cyn y cyfarfod yr wythnos ddilynol. Felly:

***Penderfynwyd*: - gohirio'r eitem fusnes hon tan gyfarfod Gweithgor y Cynllun Lleihau Risg ar Ionawr 30ain 2007.**

### 10) Y Cynllun Drafft ar Gydraddoldeb Hiliol 2005/08

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân ei adroddiad a Chynllun drafft y Gwasanaeth ar Gydraddoldeb Hiliol 2005/08 (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i'r aelodau er mwyn ceisio eu cymeradwyaeth i'r Cynllun drafft diwygiedig. Rhoddodd fanylion am y cefndir cyfreithiol a oedd wedi ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod, ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill, lunio Cynllun Cydraddoldeb Hiliol a'i adolygu bob tair blynedd wedi hynny. Cafodd Cynllun cyntaf yr Awdurdod ei lunio a'i gymeradwyo yn 2002, felly Cynllun Cydraddoldeb Hiliol diwygiedig y Gwasanaeth am y cyfnod 2005/08 oedd y Cynllun oedd gerbron y Panel yn disgwyl cymeradwyaeth. Gan nad oedd swyddogion y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CRE) yn gwbl fodlon â drafft cyntaf y Cynllun a gyflwynwyd ym Mai 2005, bu oedi cyn y gellid cyflwyno'r Cynllun i'r aelodau tra'r oedd swyddogion o'r tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru a'r Comisiwn yn cydweithio i lunio cynlluniau a oedd yn foddhaol i'r Comisiwn a'r awdurdodau unigol. Felly:

***Penderfynwyd*: - cymeradwyo a mabwysiadu Cynllun Cydraddoldeb Hiliol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 2005/08.**

Holodd y Prif Swyddog Tân pam y gwahoddwyd Mr Chris Myant o'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol i annerch cyfarfod y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn y Cynulliad ar Ionawr 31ain 2007 ynghylch "Cynllun Cydraddoldeb Tân", pan oedd yn ymddangos na fyddai cynrychiolydd o'r Gwasanaethau yn bresennol. Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân nad oedd Mr Myant wedi gallu mynychu'r cyfarfod lle roedd cynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Tân ac Achub wedi rhoi cyflwyniadau i'r Pwyllgor ar y Cynlluniau Cydraddoldeb Hiliol. Felly, roedd wedi cael gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod ar Ionawr 31ain i roi safbwynt y Comisiwn ynghylch y ffordd yr oeddent wedi cydweithredu â'r awdurdodau i lunio cynlluniau oedd yn dderbyniol i bawb dan sylw.

## 11) Y Weithdrefn Gwynion

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i'r Panel am yr adolygiad a gynhaliwyd yn ddiweddar o weithdrefn gwynion yr Awdurdod. Atgoffodd yr aelodau fod yr Awdurdod, yn ei gyfarfod ar Hydref 23ain 2006, wedi gofyn i adolygiad gael ei gynnal o Weithdrefn Gwynion bresennol yr Awdurdod er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r canllawiau diweddaraf a ddaeth gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Aeth y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) yn ei flaen i fanylu ar gynnwys yr adroddiad, a oedd yn cynnwys cyngor cyffredinol yr Ombwdsmon, ac yn rhoi manylion Polisi Cwynion diwygiedig Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a oedd wedi ei archwilio gan yr Ombwdsmon. Wrth ateb cwestiynau'r aelodau, cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) fod yr amserlen oedd yn yr adroddiad ar gyfer tri cham y Weithdrefn wedi cael ei chymeradwyo gan yr Ombwdsmon, a bod gweithdrefnau eisoes mewn lle i sicrhau parhad y broses petai salwch neu ryw absenoldeb arall na ellid ei ragweld. Felly:

***Penderfynwyd*: -**

- ***i*** ***nodi cynnwys yr adroddiad, ac yn benodol, y newidiadau arfaethedig yn dilyn cyngor gan yr Ombwdsmon; a***
- ***ii*** ***bod y newidiadau i'r weithdrefn gwynion bresennol yn dod i rym ar Ebrill 1af 2007.***

## 12) Monitro Perfformiad

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybodaeth i'r aelodau am berfformiad y Gwasanaeth yn erbyn y gwahanol ddangosyddion (PIs) yn ystod dau chwarter cyntaf blwyddyn adrodd 2006/07. Cyn dechrau'r cyfarfod, dosbarthwyd taflen ddiweddaru hwyr i bawb oedd yn bresennol yn dangos perfformiad yr

Awdurdod yn erbyn y gwahanol ddangosyddion hyd at, ac yn cynnwys, Rhagfyr 31ain 2006. Cafodd yr aelodau wybod mai'r bwriad oedd cyflwyno'r data am berfformiad yn y diwyg presennol tan ddiwedd y flwyddyn adrodd gyfredol, ond byddai'r diwyg o ran cyflwyniad yn newid ar gyfer blwyddyn adrodd 2007/08 yn unol ag argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru a amlinellwyd yn gynharach.

Yna, tynnodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) sylw'r aelodau at nifer o ddangosyddion oedd yn yr adroddiad. Da oedd adrodd fod nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi, y prif danau a'r tanau bwriadol (ac eithrio'r rhai mewn cerbydau) wrthi'n gostwng. Calonogol hefyd oedd nodi bod nifer yr anafiadau mewn tanau damweiniol yn y cartref hefyd yn is na'r targed a osodwyd, a 30% yn is na ffigwr y llynedd. Yn anffodus, siom a gofid oedd fod nifer y bobl oedd wedi marw o ganlyniad i danau damweiniol yn y cartref gryn dipyn yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Cafodd yr aelodau wybod gan y Prif Swyddog Tân fod y person a achubwyd o dân mewn tŷ yn Neganwy y diwrnod cynt wedi marw y bore hwnnw. Aeth yn ei flaen i esbonio bod y Tasglu, a sefydlwyd ganddo yn yr hydref o ganlyniad i'r cynnydd annerbyniol yn nifer y marwolaethau oherwydd tân, ar fin cwblhau ei waith, a byddai mewn sefyllfa i adrodd ynghylch ei ganfyddiadau cyn bo hir. Ystadegyn siomedig arall oedd y cynnydd yn nifer y tanau bwriadol mewn cerbydau. Holodd y Cynghorydd E C George a oedd toriadau yng nghyllidebau amgylcheddol awdurdodau lleol yn cael effaith ar y dangosydd perfformiad penodol hwn, gan fod cerbydau gadawedig nad oeddent bellach yn cael eu casglu na'i gwaredu gan awdurdodau lleol, yn darged i losgwyr.

Mewn perthynas â galwadau diangen oherwydd systemau larwm tân awtomatig (AFA), siom oedd adrodd bod nifer y galwadau a dderbyniwyd hyd yn hyn eleni yn dal yn uwch na'r targed, er bod gwaith yn cael ei wneud i geisio gostwng nifer y math yma o alwadau. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru, yn ei adroddiadau, wedi tynnu sylw at yr angen i'r Awdurdod, yn yr un modd a chyrff cyhoeddus eraill, nodi arbedion effeithlonrwydd a dangos ei fod yn effeithiol wrth ddefnyddio ei adnoddau. Roedd y maes yma'n enghraifft bwysig o le roedd adnoddau gwerthfawr yn cael eu gwastraffu oherwydd systemau larwm tân nad oedd yn cael eu cynnal na'u rheoli'n dda. I ateb cwestiwn gan y Cynghorydd J Vaughan, dywedodd y Clerc fod yr Awdurdod wedi bod yn lobïo llawer i'r awdurdodau tân ac achub gael y pŵer i godi taliadau am ymateb i alwadau diangen parhaus gan systemau awtomatig. Er sawl cais, a'r diweddaraf oedd ddiwedd y llynedd wrth ymateb i ymarferiad ymgynghori gan Lywodraeth y Cynulliad ynghylch bwriadau i ymestyn Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Codi Taliadau) (Cymru) 2006, nid oedd y pŵer hwn wedi ei roi eto. Yn y cyfamser, roedd cyfarfodydd yn mynd rhagddynt gyda chynrychiolwyr o'r awdurdodau iechyd i geisio gostwng nifer y mathau yma o alwadau o'u sefydliadau. Ond, gan nad oedd cymhellion ariannol i'w cael o leihau nifer y galwadau diangen oherwydd systemau awtomatig, ni fyddai'r mater yn uchel ar eu rhestr o flaenoriaethau. Addawodd yr Is-Gadeirydd godi'r mater, ynghylch caniatáu i awdurdodau tân ac achub godi taliadau am ymateb i alwadau diangen oherwydd systemau larwm awtomatig, yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Diogelwch Tân Cymunedol ym mis Chwefror.

Rhybuddiwyd yr aelodau gan y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) y byddai'r dangosydd oedd yn ymwneud â thalu anfonebau, a oedd eisoes lawer yn is na'r targed, yn dangos gostyngiad pellach yn y nifer oedd yn cael eu talu mewn llai na 30 niwrnod yn y dyfodol agos, gan fod y dull o gofnodi ar gyfer y dangosydd hwn wrthi'n cael ei newid i system fwy cywir. Yn yr hir dymor, byddai'r newid yn hwyluso gwell perfformiad yn y maes hwn.

Roedd perfformiad yr Awdurdod mewn perthynas ag absenoldebau salwch, er yn uwch na'r targedau a osodwyd, yn dangos gwelliant o'i gymharu â ffigurau'r llynedd. I ateb cwestiwn gan y Cynghorydd D Barratt a holodd os oedd dangosydd yn bodoli a oedd yn cofnodi nifer y staff oedd wedi eu gwahardd o'u gwaith, dywedodd y swyddogion nad oedd dangosydd o'r fath yn bodoli ac y byddai'n amhosib adrodd ynghylch gwybodaeth o'r fath dan fusnes Rhan 1. Cafodd yr aelodau wybod y gallent ofyn am yr wybodaeth hon yn breifat gan swyddogion. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad, a bod gohebiaeth yn cael ei hanfon at Lywodraeth y Cynulliad i geisio ei chael i brysuro i gyhoeddi ei phenderfyniad a'i hymateb i'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad diweddar ar fwriadau i ymestyn pwerau Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Codi Taliadau) (Cymru) 2006.***

### 12a) Larymau Mwg/Tân mewn Tanau mewn Cartrefi

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) a oedd yn rhoi dadansoddiad i'r aelodau o nifer y larymau mwg oedd wedi eu gosod ac wedi canu yn ôl math o ddaliadaeth y cartrefi lle cafwyd tanau yn ardaloedd yr awdurdodau unedol, fel y gofynnwyd gan y Panel yn ei gyfarfod ar Fedi 21ain 2006. Esboniodd fod yr adroddiad ond yn rhoi manylion yr eiddo yr anfonwyd y Gwasanaeth atynt. Yn anffodus, nid oedd modd gwahaniaethu rhwng eiddo oedd yn berchen i'r deiliad a chartrefi a rentwyd yn breifat. Yna, esboniodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) yr ystadegau oedd yn yr adroddiad i'r aelodau. Wrth ymateb i'r wybodaeth, mynegodd yr Is-Gadeirydd ei siom a'i bryder mai yn ei awdurdod lleol ef, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, yr oedd y nifer uchaf o gartrefi oedd ym mherchnogaeth yr awdurdod lleol lle nad oedd larymau mwg/tân wedi'u gosod/gweithio. Yn ôl y Cynghorydd George, roedd hyn yn arbennig o siomedig ac yn syndod gan fod swyddogion yr awdurdod lleol wedi ei sicrhau rai blynyddoedd yn ôl fod larymau system drydan yn holl eiddo Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Wedi iddo dderbyn y wybodaeth yma roedd wedi cysylltu â swyddogion y cyngor gyda'r bwriad o gywiro'r sefyllfa annerbyniol hon yn ddi-oed. Roedd y Cynghorydd George yn teimlo bod gwersi i'w dysgu o sefyllfa Wrecsam i'r awdurdodau lleol a'r Gwasanaeth: petai sefyllfaoedd tebyg yn codi yn y dyfodol, dylai Rheolwyr Diogelwch y Siroedd gysylltu ag adrannau tai yr awdurdod lleol perthnasol a rhoi gwybod iddynt am ddiffygion o'r fath, a hynny ar frys. Roedd yr Is-Gadeirydd yn gadarn o'r farn fod gan waith amlasiantaeth ran i'w chwarae i sicrhau bod larymau mwg oedd yn gweithio yn

cael eu gosod ym mhob eiddo domestig. Roedd angen i'r aelodau etholedig hefyd ysgwyddo eu cyfrifoldebau yn y maes hwn ac i gyflwyno diogelwch tân cymunedol i'r ardaloedd. Cynigiodd y Cynghorydd George y dylai'r Awdurdod benodi "Hyrwyddwyr Diogelwch Tân" o blith ei aelodau ar gyfer pob ardal awdurdod unedol i hyrwyddo materion diogelwch tân o fewn ei (h)awdurdod, ac i fod yn gyswllt rhwng eu hawdurdod a'r Awdurdod Tân ac Achub.

Roedd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yn croesawu cynnig yr Is-Gadeirydd. Roedd o'r farn y byddai cael hyrwyddwyr o fewn pob awdurdod lleol yn gymorth i'r Gwasanaeth wrth geisio gostwng y nifer cynyddol o farwolaethau oherwydd tân. Byddai hefyd yn fodd i'r Gwasanaeth gael mynediad at wahanol adrannau o lywodraeth leol, megis y Gwasanaethau Cymdeithasol, a gallent hwythau wedyn fod yn gymorth i gael mynediad at bobl a grwpiau sy'n agored i berygl. Wedi trafodaeth, eiliwyd y cynnig ac felly:

***Penderfynwyd*: -**

- ***i*** ***penodi Hyrwyddwyr Diogelwch Tân o blith aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer ardaloedd yr awdurdodau unedol i hyrwyddo materion yn ymwneud â diogelwch tân cymunedol o fewn eu hawdurdodau lleol eu hunain, ac i fod yn llysgenhadon materion diogelwch rhwng yr Awdurdod Tân ac Achub a'u hawdurdodau lleol eu hunain ac fel arall;***
- ***ii*** ***bod yr aelodau'n rhoi gwybod i'r Cadeirydd am yr enwebiadau erbyn Chwefror 2il 2007; ac***
- ***iii*** ***wedi cadarnhau'r enwebiadau, anfon llythyr at yr awdurdodau cyfansoddol i'w hysbysu o'r penodiadau.***

Cafodd yr aelodau eu hatgoffa gan y Prif Swyddog Tân fod gan bob aelod o'r Awdurdod ei r(h)an i'w chwarae mewn materion diogelwch tân cymunedol, nid y rhai a benodid fel 'hyrwyddwyr' yn unig.

## 13) Ymestyn Tâl Salwch

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i'r aelodau am y penderfyniadau a wnaeth y Prif Swyddog Tân, yn dilyn ymgynghori â'r Cadeirydd, mewn perthynas â chaniatáu ymestyn tâl salwch. Esboniodd mai eitem arferol ar agenda'r cyfarfod oedd yr eitem, a fod yr adroddiad yn un hunanesboniadol. Felly:

***Penderfynwyd*: - nodi'r adroddiad**

## 14) Yr Ymweliad Arfaethedig â Choleg y Gwasanaeth Tân

Wedi'r rhybudd o gynnig a drafodwyd yng nghyfarfod yr Awdurdod ar Ragfyr 18fed 2006 a'r penderfyniad wedi hynny i drefnu ymweliad undydd â Choleg y Gwasanaeth Tân ym Moreton-in-Marsh i bob aelod o'r Awdurdod oedd â diddordeb, cafodd yr aelodau wybod gan y Swyddog Cyswllt Aelodau fod 21 o aelodau wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan mewn ymweliad hyd yn

hyn, yn dibynnu ar eu dyddiaduron. Yna, rhoddodd Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth wybod i'r aelodau ei fod wedi siarad ag awdurdodau'r Coleg ynghylch y trefniadau ar gyfer yr ymweliad. Roeddent wedi addo rhoi ateb iddo cyn bo hir gyda dyddiadau posib. Yna, rhoddodd grynodeb o'r amserlen arfaethedig.

**15) Materion Brys**

Dim.

**16) Dyddiad(au) cyfarfodydd i ddod**

Wedi trafodaeth, gohiriodd yr aelodau y penderfyniad ynghylch dyddiad cyfarfod nesaf y Panel tan gyfarfod Gweithgor y Cynllun Lleihau Risg ddydd Mawrth, Ionawr 30ain 2007. Roeddent yn teimlo y byddai'n fwy eglur yn y cyfarfod hwnnw pryd y byddai angen i'r Panel ymgynnull i lunio ei argymhellion mewn perthynas â'r bwriadau ar gyfer Cynllun Lleihau Risg 2008/09 i'w cyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar Fawrth 19eg 2007.

11.50am: torrodd y cyfarfod ar yr adeg hon, ac ailymgynnull am hanner dydd. Gadawodd y Cynghorydd M Williams y cyfarfod ar yr adeg hon.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau mai'r argymhelliad oedd trafod yr eitemau oedd yn weddill ar agenda'r cyfarfod heb y cyhoedd na'r Wasg yn bresennol. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth drafod yr eitemau busnes canlynol gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt fel y diffinnir ym Mharagraffau 1, 8, 9 a 10 o Ran I o Atodlen12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.***

**<u>RHAN II</u>**

**17) Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar)(Iawndal yn ôl Disgresiwn)(Cymru a Lloegr) 2006**

Wedi cael cyngor gan y Trysorydd, roedd yr eitem fusnes hon wedi ei thynnu oddi ar yr agenda gan y byddai'n cael ei thrafod mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**18) Adolygiad o'r Ymarferwyr Diogelwch Tân Rhan Amser a'r rhai sy'n gweithio'r System Ddyletswydd Rhan Amser**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i geisio cael yr aelodau i gymeradwyo newidiadau arfaethedig i'r ffordd roedd y Gwasanaeth yn darparu ei weithgarwch Diogelwch Tân Cymunedol, a sut y byddai'r newidiadau arfaethedig yn effeithio ar y system Dyletswydd Ran Amser *(Retained Duty System (RDS))* a'r Ymarferwyr Diogelwch Tân Cymunedol

Rhan Amser *(part-time CFS Practitioners).* Esboniodd fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y trefniadau presennol, y gofynion dan y System Datblygiad Personol Integredig *(Integrated Personal Development System (IPDS))* ar gyfer yr holl ddiffoddwyr tân i fod a rhan mewn cyflwyno diogelwch tân cymunedol a'r rhesymau pam roedd y swyddogion yn teimlo fod angen newid yn y dulliau o gyflwyno'r gwasanaeth hwn. Yn yr adroddiad, roedd tri opsiwn ynghylch y ffordd y gellid darparu gweithgarwch diogelwch tân cymunedol yn y dyfodol. Roedd y costau, y risgiau a'r manteision o ran pob opsiwn wedi eu cynnwys er gwybodaeth i'r aelodau, ac roeddid wedi ceisio ac wedi cael gwybodaeth a chyngor cyfreithiol helaeth yn y gyfraith ynghylch cyflogaeth.

Atebwyd ymholiadau'r aelodau gan y swyddogion mewn perthynas â'r cyngor cyfreithiol a dderbyniwyd, yr effaith bosib ar yr ymarferiad gwerthuso llywodraeth leol presennol a'r opsiynau oedd yn yr adroddiad. Wedi trafodaeth am y pwysau posib ar y gyllideb ynghylch cymeradwyo un o'r opsiynau fel yr oedd yn yr adroddiad, newidiwyd ychydig ar yr opsiwn honno cyn ei chynnig a'i heilio. Gofynnwyd i'r swyddogion hefyd sicrhau y byddai digon o arian ar gael o fewn y gyllideb i ariannu'r opsiwn hon yn llwyr petai'r opsiwn ddiwygiedig yn cael ei chario. Roedd yr aelodau hefyd o'r farn mai'r Awdurdod Tân ac Achub ddylai fod yn gyfrifol am y penderfyniad terfynol, felly dim ond gwneud argymhellion y dylai'r Panel ei wneud mewn perthynas â'r cynigion.

Cynigwyd gwelliant i'r cynnig uchod, sef gohirio trafod y mater tan gyfarfod Gweithgor y Cynllun Lleihau Risg ar Ionawr 30ain 2007, ac eiliwyd hynny. Pan bleidleisiwyd, collwyd y gwelliant. Wedi hynny, pleidleisiwyd ynghylch yr argymhelliad diwygiedig, a thrwy fwyafrif:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi cynnwys yr adroddiad, a chydnabod bod Diogelwch Tân Cymunedol yn gyfrifoldeb craidd i'r holl ddiffoddwyr tân, ac argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ar Fawrth19eg 2007:***

- ***i yn dilyn yr adolygiad o weithgarwch y System Dyletswydd Ran Amser a'r Ymarferwyr Diogelwch Tân Cymunedol Rhan Amser, y dylid mabwysiadu opsiwn 3;***
- ***ii y dylid, os bydd angen, dalu unrhyw daliadau am ddileu swydd gan ddilyn y fformiwla statudol yn seiliedig ar wir dâl wythnosol mewn perthynas â dileu ar sail arbedion effeithlonrwydd; a***
- ***iii cyflogi pum aelod o staff llawn amser dan Amodau Gwasanaeth y Llyfr Gwyrdd i gynnal Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref.***

## 19) Lleoliad yr Ail Ystafell Reoli

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad cyfrinachol a'r atodiadau (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i geisio cael y Panel, wedi ystyried yr holl wybodaeth, i benderfynu ar leoliad Ail Ystafell Reoli'r Gwasanaeth. Cafodd aelodau'r Panel wybod gan y Prif Swyddog Tân fod yr adroddiad yn rhoi yn eu cyd-destun y materion oedd yn yr atodiadau cynhwysfawr oedd ynghlwm wrtho. Aeth y Prif Swyddog Tân a Rheolwr yr Ystafell Reoli ati i fanylu ar gynnwys yr adroddiad a'r atodiadau, a bu'r ddau yn ateb cwestiynau'r aelodau yn eu cylch. Roedd y

cwestiynau'n ymwneud â materion ariannol, y trefniadau wrth gefn presennol, gweithio ar y cyd/cydweithredu, gwrthsefyll ac ymrwymiadau cytundebol. Tra'n trafod yr eitem fusnes hon, dosbarthwyd copi i bawb oedd yn bresennol o lythyr gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn Llywodraeth y Cynulliad at y Cadeirydd, dyddiedig Ionawr 15fed 2007, oedd yn datgan eto ei chefnogaeth a'i phenderfynoldeb i weld ystafell reoli ar yr un safle ar gyfer y gwasanaethau brys yn y Gogledd. Wedi trafodaeth:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

- ***i*** ***bod y gwaith ar brosiect Firelink yn mynd yn ei flaen ar y sail fod y brif ystafell reoli yn cael ei hadleoli i Grud y Dderwen a'r ail ystafell reoli ar safle'r Rhyl;***
- ***ii*** ***bod Airwave yn cael eu hysbysu o'r newid hwn cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ond cyn Ebrill 1af 2007 mewn unrhyw achos;***
- ***iii*** ***bod y Prif Swyddog Tân yn parhau i ddilyn yr opsiwn tri gwasanaeth fel y trefniant gorau posib am effeithlonrwydd gweithredol yn y tymor hir; a***
- ***iv*** ***bod llythyr yn cael ei anfon at holl aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub i roi gwybod iddynt am y penderfyniadau hyn.***

1.10y.p. Gadawodd y Cynghorydd J Vaughan y cyfarfod yn y fan hon.

**20) Y Diweddaraf am Brosiectau Cyfalaf**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) ei adroddiad arferol (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi'r diweddaraf i'r aelodau am raglen gyfalaf yr Adran Rheoli Adnoddau. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi cynnwys yr adroddiad***

Daeth y cyfarfod i ben am 1.15yp.